**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

21 Mawrth 2019

Annwyl Rebecca

**Diwygio is-ddeddfwriaeth - amserlenni**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019 yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019.

Gwnaeth ein hadroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol dynnu sylw at faterion technegol gyda'r is-ddeddfwriaeth a nodir uchod.

Yn ei hymateb i'n hadroddiad ar y Rheoliadau, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwynt. Bydd diwygiad yn cael ei wneud pan fydd y cyfle nesaf yn codi."

Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Gorchymyn:

> "Bydd OS sy'n diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 er mwyn ymdrin â'r mater hwn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl."

Ar 20 Mawrth, rydym yn nodi ac yn croesawu'r ffaith fod Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019 wedi'i osod gerbron y Cynulliad.

Yn fwy cyffredinol, yn ystod y misoedd diweddar rydym wedi cael nifer o ymatebion gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiadau lle rydym wedi nodi

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

materion technegol gydag is-ddeddfwriaeth lle mae Llywodraeth Cymru, mewn ffyrdd amrywiol, wedi ymrwymo i fwrw ymlaen i ddiwygio'r is-ddeddfwriaeth.

Byddem yn ddiolchgar am wybodaeth ynglŷn â beth yw polisi Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar 'y cyfle nesaf sydd ar gael', er enghraifft, a phryd a pham y caiff 'cyn gynted â phosibl' ei ystyried i fod yn amserlen briodol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth y mae angen ei diwygio.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English